

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Grŵp Cyngor Technegol

# Cyngor ar gyfer Adolygu'r Cyfyngiadau ar 22 Ebrill

16 Ebrill 2021







© Hawlfraint y Goron 2021

# Cyngor gan y Grŵp Cyngor Technegol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer Iechyd – 16 Ebrill 2021

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyngor ar y llacio arfaethedig a ystyriwyd fel rhan o adolygiad 22 Ebrill, sy'n cynnwys:

- Atyniadau awyr agored (gan gynnwys ffeiriau, parciau thema a phyllau nofio)
- Lletygarwch awyr agored
- Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu (hyd at 30 o bobl)
- Derbyniadau priodas yn yr awyr agored (cyfyngedig i 30 o bobl)
- Campfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd (hyfforddiant unigol neu un-i-un)
- Aelwydydd estynedig (aelwyd arall nad yw'n rhan o'ch swigen gefnogaeth)

Cafodd y cyngor hwn ei lywio gan ganlyniad ymarfer 'Sganio'r Dystiolaeth Gychwynnol' ar drosglwyddo dan do/yn yr awyr agored gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru.

Gwnaed ceisiadau pellach i ystyried cyflwyno cyngor ar:

- Weithgareddau dan do i blant
- Gweithgareddau dan do wedi'u trefnu (hyd at 15 o bobl, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff)
- Canolfannau cymunedol

Ac i naill ai:

- Ymestyn y diffiniad o'r rheol chwe pherson i gyd-fynd â'r rheol yn Lloegr, NEU
- Ymestyn y rheol chwe pherson yn yr awyr agored i gynnwys hyd at chwe pherson o chwe aelwyd (heb gynnwys plant o dan 12 oed).

## 1. Crynodeb o'r Cyngor

- Dylid darllen y cyngor gan TAG ar y cyd â'r Crynodeb o Gyngor TAG sy'n ymwneud ag Ymddygiadau diweddaraf, a'i ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa epidemiolegol bresennol. Mae'r asesiadau risg a gynhelir yn seiliedig ar y disgwyliad a ddeellir y bydd lefelau cydymffurfio â'r rheoliadau ac ymyriadau iechyd y cyhoedd y boblogaeth yn dda.

- Mae parhau i lacio'r cyfyngiadau yn unol â Chynllun Rheoli'r Coronafeirws, gyda'r newid cyflymder sydd wedi'i gyhoeddi, yn debygol o arwain at lefelau COVID-19 y gellir eu rheoli yng Nghymru (hyder canolig). Mae ansicrwydd ynghylch a fydd cyflymu pellach yn cynyddu twf yr epidemig y tu hwnt i lefelau y gellir eu rheoli. Nid yw'r berthynas rhwng brechu a niwed wedi'i meintioli'n effeithiol eto.

- Pwysleisia gwersi o Ewrop a De America, lle mae trydedd don wedi digwydd, y bydd mabwysiadu agwedd ofalus yn ystod y cyfnod hwn yn caniatáu mwy o ryddid yn y tymor hir.

- Mae'r gostyngiadau mewn achosion ers mis Ionawr yn cael eu hysgogi'n bennaf gan fesurau diogelu iechyd y cyhoedd yn hytrach na'r rhaglen frechu, sydd, hyd yma, wedi canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sydd fwyaf tebygol o gael canlyniadau gwael ond sydd fel arfer yn cael llai o effaith ar drosglwyddo ar draws y boblogaeth gyfan. Bydd hyn yn newid wrth i gyfran uwch o boblogaeth Cymru gael eu brechu, ond bydd bylchau yn dal i fod o ran nifer y rheini a gaiff eu brechu.

- Mae modelu diweddar gan SPI-M a Phrifysgol Abertawe yn awgrymu bod trydedd don yn debygol iawn, er nad yw amseriad, graddfa a siâp y don hon yn sicr. Mae'r senarios cyffredinol sydd wedi'u modelu yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd achosion, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau yn cynyddu yn ystod ail hanner 2021 wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, ond bydd hyn yn digwydd ar lefel is o gymharu â thonnau blaenorol.

  Trosglwyddo amrywiolynnau sy'n dianc rhag effaith brechlyn a/neu sy'n dianc rhag ymateb imiwnyddol ar raddfa eang; terfyn ar ymddygiad cadw pellter cymdeithasol; neu, i raddau llai, newid yn y cyflenwad o frechlynnau neu ostyngiad sylweddol yn nifer y rhai a fydd yn cael brechlyn, yw'r prif faterion a allai achosi ymchwydd sylweddol mewn niwed sy'n gysylltiedig â Covid.

- Ceir tystiolaeth bod y risg trosglwyddo yn gyffredinol yn is yn yr awyr agored nag ydyw o dan do oherwydd awyru gwell, effaith golau'r haul a'r ffaith bod mwy o gyfle i gadw pellter cymdeithasol mewn mannau yn yr awyr agored. Fodd bynnag, bydd ymddygiadau diogelu personol fel gorchuddion wyneb a

hylendid dwylo yn parhau i fod yn bwysig mewn lleoliadau lle nad yw'n bosibl i gadw pellter cymdeithasol o 2m o leiaf, yn enwedig am gyfnodau estynedig.

- Bydd y risg gymharol o drosglwyddo yn y lleoliadau a drafodir yn y diwygiadau adolygu yn amrywio gan ddibynnu ar y tebygolrwydd o drosglwyddo yn yr amgylchedd hwnnw ac amlder ymweliadau pobl â'r lleoliad hwnnw, yn ogystal â hyd yr ymweliadau hynny. Gall lleoliadau sydd â mwy o ffactorau risg y mae llawer o bobl yn ymweld â hwy'n aml am gyfnodau hir, gan gynnwys y rheini sydd yn yr awyr agored, gael mwy o effaith ar drosglwyddo ar lefel y boblogaeth nag a gaiff lleoliadau eraill yr ymwelir â hwy yn llai aml. Dylid ystyried rôl gweithgareddau 'cofleidiol' fel trafnidiaeth a phwyntiau mynediad/ymadael yn ogystal â'r lleoliad ei hun.
- O ran cyfleusterau ymarfer corff, mae hyfforddiant unigol ynghyd ag ymddygiadau diogelu (gan gynnwys glanhau arwynebau'n rheolaidd) yn cynrychioli risg is na dosbarthiadau ffitrwydd, sydd wedi'u cysylltu â nifer o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag archledaenwyr yn rhyngwladol.
- O ran y 'Rheol 6 pherson' byddai TAG yn cefnogi cynnal yr esemptiad presennol o blant o dan 11 oed o unrhyw gap mewn niferoedd, yn enwedig gan y byddai'n rhaid i'r plant hynny fod o un o aelwydydd y 6 pherson fel un o amodau'r lliniaru.
- Mae gweithgareddau dan do wedi'u trefnu yn debygol o gynrychioli risg uwch o drosglwyddo, yn enwedig lle mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys ymarfer corff, canu, siarad yn uchel etc ac mae hyn yn cynyddu gyda hyd y digwyddiad ac agosrwydd y bobl at ei gilydd. Mae posibilrwydd hefyd o greu clystyrau rhwydwaith eang pan fydd llawer o bobl yn bresennol o wahanol aelwydydd os ceir trosglwyddo, er bod cysylltiad agos rhwng y risg hon a chyffredinrwydd y feirws yn y gymuned. O ganlyniad, dylid cynnal gweithgareddau amgen i'r rheini a gynhelir dan do neu eu symud i'w cynnal yn yr awyr agored pan fo hynny'n bosibl yn ystod cyfnod yr haf.

## 2. Crynodeb o'r sefyllfa

Mae crynodeb yr Adroddiad ar Sefyllfa COVID-19 Cymru diweddaraf ar gael yma. Mae'r crynodeb o gyngor diweddaraf y Gell Cyngor Technegol ar gael yma ac mae'n ategu'r crynodeb o'r sefyllfa hwn.

Dylid nodi na fydd effaith lawn y diwygiadau a wnaed ar 12 Ebrill (yn arbennig cynnwys newidiadau ar gyfer Ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch) yn cael ei chynrychioli'n llawn eto yn y data ar drosglwyddo, gan ei bod yn cymryd o leiaf tair wythnos i arsylwi ar hyn. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ystyried y cyfraddau trosglwyddo presennol yn seiliedig ar fesurau sy'n bodoli eisoes.

Ni ellir darparu amcangyfrif dibynadwy o'r effaith a gafodd camau i lacio'r cyfyngiadau cyn hyn ac, o ganlyniad felly, nid yw'n bosibl mesur yn gadarn y cynnydd pellach mewn risg a fyddai'n gysylltiedig â llacio pellach (Hyder uchel).

Mae llacio pellach sy'n arwain at gymysgu mwy ar lefel y boblogaeth yn debygol o arwain at ragor o achosion a thwf esbonyddol (Hyder uchel). Mae'n bwysig cofio, wrth i ragor o leoliadau ailagor ac wrth i weithgareddau ailddechrau, y ceir effeithiau lluosydd rhwydwaith sy'n cynyddu trosglwyddo ymhellach, felly ni ellir ystyried lleoliadau a gweithgareddau ar wahân.

Mesurau rheoli iechyd y cyhoedd y boblogaeth yw prif ysgogiad y gostyngiad mewn achosion ers mis Ionawr (Hyder uchel). Mae hyn yn bennaf oherwydd, er bod y rhaglen frechu wedi bod yn effeithiol wrth symud ymlaen drwy grwpiau blaenoriaeth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), mae gan bobl hŷn lai o gysylltiadau o gymharu â gweddill y boblogaeth ac felly maent yn cael llai o effaith ar drosglwyddo ar draws y boblogaeth gyfan. Wrth i fesurau rheoli gael eu llacio a phobl yn cymysgu, bydd y cyfraddau heintio yn cynyddu (Hyder uchel). Wrth i ragor o bobl gael eu brechu, bydd y ddibyniaeth ar fesurau rheoli'r boblogaeth i leihau niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn lleihau dros amser. Wrth i gyffredinrwydd leihau, mae'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad ag unigolyn heintus yn gostwng (Hyder uchel).

Nid yw'r berthynas newydd rhwng achosion o COVID-19, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau a brechu wedi'i meintioli eto. Wrth i'r rhaglen frechu barhau, dylai cyfran yr achosion sy'n arwain at afiechyd difrifol a marwolaethau barhau i ostwng (Hyder uchel). Fodd bynnag, mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn dal i fod yn agored i'r haint er bod y rhan fwyaf o'r rheini sydd yn y perygl mwyaf o salwch difrifol o'r haint bellach wedi cael eu brechu.

Mae'n parhau i fod yn bwysig i ystyried effaith bosibl 'Covid Hir' a'r amodau ar ôl COVID-19 wrth gynllunio i lacio cyfyngiadau. Dros y cyfnod o bedair wythnos a ddaeth i ben ar 6 Mawrth 2021, amcangyfrifodd arolwg heintiau COVID-19 fod 56,000 o bobl mewn aelwydydd preifat yng Nghymru yn profi Covid Hir hunangofnodedig. Ymhlith cyfranogwyr yr astudiaeth a gafodd brawf positif ar gyfer COVID-19, roedd nifer y rheini yr oedd eu symptomau yn parhau 12 wythnos ar ôl iddynt gael eu heintio yn uwch ar gyfer cyfranogwyr benywaidd (14.7%) na chyfranogwyr gwrywaidd (12.7%) ac roedd ar ei uchaf ymhlith y rheini rhwng 25 a 34 oed (18.2%)[1].

## 3. Diweddariad ar fodelu polisi

Mae'r gwaith modelu wedi'i ddiweddaru gan SPI-M (sy'n ystyried elfennau sy'n benodol i fap ffyrdd ('*roadmap*') Lloegr, ond sydd hefyd yn berthnasol i Gymru), yn parhau i awgrymu bod trydedd don yn debygol iawn. Mae ansicrwydd ynghylch

[1] ONS, Cyffredinrwydd symptomau parhaus yn dilyn heintiad â'r coronafeirws (COVID-19) yn y DU:1 Ebrill 2021

amseriad, graddfa a siâp y don hon oherwydd ceir pobl mewn grwpiau agored i niwed nad oes ganddynt amddiffyniad uniongyrchol (naill ai am nad ydynt wedi cael eu brechu, neu am nad yw brechu'n atal haint neu salwch yn llawn), ac nid yw imiwnedd y boblogaeth ehangach yn darparu digon o amddiffyniad anuniongyrchol (Hyder canolig-uchel).